**CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD**

COFNODION

---

CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL ARBENNIG: 14 GORFFENNAF 2017

---

Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol oedd yn Bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng. Nigel Daniels | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Stephen Gillingham, Prif Weithredwr | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Y Cyng. Huw David, Arweinydd | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Mark Shephard | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cyng. David Poole | - | Cyngor Caerffili |
| Chris Burns, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerffili |
| Cyng. Huw Thomas | - | Cyngor Caerdydd |
| Paul Orders, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerdydd |
| Y Cyng. Kevin O'Neill, Arweinydd | - | Cyngor Merthyr |
| Gareth Chapman, Prif Weithredwr | - | Cyngor Merthyr |
| Y Cyng. Peter Fox, Arweinydd | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Paul Matthews, Prif Weithredwr | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd | - | Cyngor Casnewydd |
| Gareth Price | - | Cyngor Casnewydd |
| Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd (Cadeirydd) | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Chris Bradshaw, Prif Weithredwr | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd | - | Cyngor Torfaen |
| Alison Ward, Prif Weithredwr | - | Cyngor Torfaen |
| Y Cyng. John Thomas, Arweinydd | - | Bro Morgannwg |
| Rob Thomas, Prif Weithredwr | - | Bro Morgannwg |

Swyddogion:

| | | |
|---|---|---|
| Christine Salter | - | Corff Atebol |
| David Marr | - | Corff Atebol |
| Liz Weale | - | Corff Atebol |
| Hrjinder Singh | - | Corff Atebol |
| Jonathan Day | - | Cyngor Caerdydd |
| Kellie Beirne | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Peter Davies | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Christian Hanagan | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| James Whitehurst | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Alistair Milburn | - | Cyfathrebiadau Effeithiol |
| Sheila Davies, Cyfarwyddwr | - | PMO Y Fargen Ddinesig |
| John Duddridge Ddinesig | - | Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen |

| | | |
|---|---|---|
| Hazel Duke | - | Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen Ddinesig |
| Matthew Swindell | - | Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen Ddinesig |

Ymddiheuriadau:

| | | |
|---|---|---|
| Darren Mepham, Prif Weithredwr | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Will Godfrey, Prif Weithredwr | - | Cyngor Casnewydd |

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd Y Cyng. Morgan gydweithwyr i'r cyfarfod a chytunwyd ar seibiant byr i ffotograff diweddar o'r Cabinet Rhanbarthol gael ei dynnu.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan a wnaed ar eitemau ar agenda'r cyfarfod.

**3. Calendr Cyfarfodydd Cyhoeddus i'r Dyfodol Arfaethedig 2017-2018**

Cytunwyd y câi dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd chwarterol cyhoeddus y Cabinet Rhanbarthol eu gosod, gan symud o ddydd Gwener i ddydd Llun yn y dyfodol. Byddai'r Swyddog Rheoli Rhaglen yn cylchredeg dyddiadau arfaethedig i bob Awdurdod i'w cytuno a byddai cyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol yn cylchdroi er mwyn cael eu cynnal yn Siambrau'r Cyngor ymhlith yr Awdurdodau Partner.

**4. Partneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol (Cofnod Rhif 8)**

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran y Cyng. Huw Thomas:-

1. 1. Cymeradwyo cyfansoddiad y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol.

2. 2. Dirprwyo awdurdod i swyddogion i sefydlu'r Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol ac i ymgymryd â'r broses recriwtio.

3. Cytuno ar gyllid ar gyfer y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**:**

a) Yn cymeradwyo'r cynnig sy'n atodedig fel Atodiad 1 i'r Adroddiad, yn amlinellu egwyddorion a chyfansoddiad y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol ('REGP').

b) Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr Cyngor Caerdydd, mewn ymgynghoriad â chyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig a'r Corff Atebol (i) i ymgymryd â'r ymarfer recriwtio ar gyfer penodi aelodau Bwrdd yr REGP a (ii) i adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag argymhellion o ran yr ymgeiswyr mwyaf addas i'w penodi, er mwyn i'r Cabinet eu cymeradwyo.

c) Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr Cyngor Caerdydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Cabinet Rhanbarth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r aelod blaen ar gyfer y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol, er mwyn dewis y panel penodi y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad hwn

d) Ar gyfer blwyddyn ariannol eleni a'r flwyddyn nesaf, dyrannu cyllid o hyd at £30,000 y flwyddyn er mwyn cefnogi sefydlu'r Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol, â chymorth ariannol cyfredol ar gyfer yr REGP yn cael ei ystyried gan y Cabinet Rhanbarthol wrth osod ei Gyllideb Blynyddol.

e) Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr Cyngor Caerdydd, er mwyn pennu'r gydnabyddiaeth mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Cabinet Rhanbarth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r aelod blaen ar gyfer y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol.

**Gofynnodd y Cyng. Morgan i gydweithwyr iddynt gytuno i gymryd Eitem 6 ar yr agenda cyn Eitem 5 a chytunwyd hynny.**

**6. Project Lled-Ddargludyddion Cyfansawdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Diweddariad ar Faterion sy'n aros (Cofnod Rhif 9)**

***Mae Atodlen Gyfrinachol i'r Cofnod hwn na chaiff ei chyhoeddi*** **oherwydd ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r fath a ddisgrifir ym Mharagraffau 14, 16 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Cynghorydd y Cyng. Morgan y cydweithwyr i nodi, wrth gyfeirio at Eitem Agenda 6, nad oedd Atodiadau 1-6 o'r adroddiad hwn i'w cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r fath a ddisgrifir ym mharagraffau 14, 16 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Yn hynny o beth, pe bai cydweithwyr yn dymuno trafod materion o fewn yr Atodiadau hynny, byddai'n rhaid i aelodau'r cyhoedd adael tra bod y drafodaeth honno'n cael ei chynnal a gofynnir iddynt ddychwelyd er mwyn clywed crynodeb a phenderfyniad terfynol y Cabinet.

Pe bai unrhyw un yn dymuno cynnig bod y cyhoedd yn gadael, gofynnwyd i gydweithwyr egluro hynny fel y gellir eilio'r cynnig a'i gynnig a'i gofnodi'n ffurfiol yn y cofnodion. Cynigiwyd y cynnig a gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd adael y trafodion.

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig:-

1. Darparu diweddariad ar broject y Lled-Ddargludyddion Cyfansawdd (CSC), ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet Rhanbarthol ar 2 Mai 2017, ar yr amod bod materion penodol yn cael eu penderfynu yn llwyddiannus.

2. Nodi newid yn yr ymrwymiad ariannol cyffredinol sy'n ofynnol ar gyfer y project.

3. Cadarnhau y gwnaed digon o gynnydd ar y materion sy'n aros er mwyn

galluogi'r Project CSC i fynd yn ei flaen ac i'r cyllid gael ei ryddhau.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

a) Yn cytuno ar gynyddu cost ofynnol y project i £38.5m fel y disgrifir yn **Atodiad 3 yr Adroddiad;**

b) Cytuno bod digon o gynnydd wedi'i wneud ar y materion hynny yr oedd penderfyniad y Cabinet Rhanbarthol ar y Project CSC ar 2 Mai 2017 yn amodol arnynt, ac yn cadarnhau y dylai'r Project CSC fynd yn ei flaen.

c) Awdurdodi'r Corff Atebol i ryddhau cyllid i'r SPV, hyd at £38.5m, mewn cyfrannau fel y gofynnwyd gan yr SPVC ac yn unol â'r darpariaethau ariannu a benthyca a ddisgrifir yn adrannau 7 ac 8 Cytundeb Cyfranddalwyr SPV a atodir yn **Atodiad 6 yr Adroddiad.**

**5. Project Lled-Ddargludyddion Cyfansawdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cerbyd Pwrpas Arbennig (Cofnod Rhif 10)**

***Mae Atodlen Gyfrinachol i'r Cofnod hwn na chaiff ei chyhoeddi* oherwydd ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r fath a ddisgrifir ym Mharagraffau 14, 16 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972*.***

Cynghorydd y Cyng. Morgan y cydweithwyr i nodi, wrth gyfeirio at Eitem Agenda 6, nad oedd Atodlenni 1-6 o'r adroddiad hwn i'w cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r fath a ddisgrifir ym mharaagraffau 14, 16 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Yn hynny o beth, pe bai cydweithwyr yn dymuno trafod materion o fewn yr Atodiadau hynny, byddai'n rhaid i aelodau'r cyhoedd adael tra bod y drafodaeth honno'n cael ei chynnal a gofynnir iddynt ddychwelyd er mwyn clywed crynodeb a phenderfyniad terfynol y Cabinet.

Pe bai unrhyw un yn dymuno cynnig bod y cyhoedd yn gadael, gofynnwyd i gydweithwyr egluro hynny fel y gellir eilio'r cynnig a'i gynnig a'i gofnodi'n ffurfiol yn y cofnodion. Cynigiwyd y cynnig a gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd adael y trafodion.

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Cyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig:-

1. Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet Rhanbarthol i sefydlu Cerbyd Pwrpas Arbennig (SPV) er mwyn cyflawni'r Project Lled-Ddargludyddion Cyfansawdd (Project y CSC).

2. 2. Ystyried a chytuno'r manylion gofynnol sydd eu hangen er mwyn sefydlu'r SPV, gan gynnwys materion megis cwmpas, amcanion, enw, trefniadau cyfranddalwyr a cyfansoddiad y Bwrdd.

**PENDERFYNWYD:** cytunwyd bod Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

a) Yn sefydlu Cwmni Cerbydau Pwrpas Arbennig a Gyfyngir trwy Gyfranddaliadau fel y disgrifir yn yr adroddiad Gwerthuso Opsiynau SPV sydd yn **Atodiad 1B;**

b) Yn cytuno enwi'r Cwmni Cerbydau Pwrpas Arbennig yn **LDC Ffowndri Cyf'**[1].

c) Cymeradwyo'r Cytundeb Cyfranddalwyr sy'n cysylltiedig i 'LDC Ffowndri Cyf', fel y disgrifir yn **Atodiad 2B;**

d) Gofyn i bob awdurdod benodi Cyfarwyddwr ar Fwrdd y Cwmni 'LDC Ffowndri Cyf'

e) Cytuno, at ddibenion y Project CSC yr Awdurdod Blaen o hyd fydd Cyngor Sir Fynwy, a dirprwyo i Brif Swyddog Gweithredol yr Awdurdod hwnnw, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Cabinet Rhanbarthol a Chyfarwyddwr y Rhaglen, y pŵer:

   i. I ymdrin â phob mater tan i'r SPV gael ei ffurfio; ac
   ii. Ar ôl hynny, bydd pob mater sy'n dod i ran yr Awdurdod Blaen fel y rhestrir yng Nghytundeb y Cyfranddalwyr ac unrhyw faterion y mae'n ofynnol er mwyn hwyluso'r Project CSC ac sy'n dod y tu allan i gylch gorchwyl yr SPV cyhyd ag y caiff y dirprwyo ei cyflawni o fewn cylch gorchwyl yr ymrwymiad ariannol a gymeradwyir.

f) Cytuno bod yr Awdurdod Blaen yn ymgymryd â gwarant taliad uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru fel y disgrifir yn 8.9 Cytundeb y Cyfranddalwyr mewn perthynas ag 'LDC Ffowndri Cyf; a

g) Bod Cyfarwyddwr y Rhaglen CCR, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Blaen, yr SPV a'r Corff Atebol, yn adrodd i'r Cabinet Rhanbarthol, ar yr adeg briodol, er mwyn gwneud penderfyniadau ar unrhyw newidiadau i rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Blaen a'r SPV.

h) Cymeradwyo Cynllun Busnes LDC Ffowndri Cyf fel y disgrifir yn **Atodiad 4.**

Diolchodd y Cyng. Morgan ei gydweithwyr am fod yn bresennol a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.

[1] 'Lled-Ddargludyddion Cyfansawdd Ffowndri Cyfngedig'